



Ail-ddathlu'r Jiwbilî

Fel rhan o ddarllediadau sydd ynghlwm ag wythnos "Eisteddfod T" yr Urdd – fe fydd S4C yn rhoi cyfle i chi weld gêm rygbi hanesyddol ddarlledwyd am y tro cyntaf ym 1972. Mae hanes yr achlysur i gyd yn y rhifyn hwn. Roedd hi'n noson arbennig iawn, iawn, i Barry John, sy'n dal y crys o'i flaen yn y darlun. Ar chwith iddo mae John Evans, Radur, sy'n adrodd yr hanes yn llawn **ar dudalen 3.**

Yn y rhifyn hwn:

Ysgol Sul & Cofio Hyn?	2
Gêm y Dathlu	3
Pwnc ar y Llungwyn	4
Oedfa'r Wythnos	5 & 6
Cân o Glod i Terry	7
Cofio Megan	7
Odlau'r Garth	8, 9 & 10

BEDLAM!

Delwyn Sion

I ba garfan y'chi'n perthyn? Y garfan sy'n cofio Robert Stack, neu'r garfan sy'n cofio Kevin Costner fel Eliot Ness – arweinydd yr 'Untouchables'. Mae'n debyg ei fod e'n dibynnu'n llwyr ar eich oedran! Dwi'n perthyn i'r garfanah!..... rhaid i chi ddyfalu. Ie, yr 'Untouchables', criw bach o ddewrion oedd y tu hwnt i ddylanwad, bygythiad a llwgrwobrwyo'r Maffia ac Al Capone yn Chicago, yn ystod 30au'r ganrif ddiwetha'.



"Untouchables", teitl canmoliaethus a fathwyd gan bapurau'r dydd i ddyrchafu'r arwyr yma a gafodd y gorau ar Capone a'r Mob. Ond, mae 'na 'Untouchables' eraill a'r tro yma dyw'r teitl ddim yn un caredig. Dyna'r dosbarth neu'r 'caste' isa'n yr India, yn gorfod byw ar wahân, yn ddirmygedig gan weddill eu cymdeithas, yn gwmws fel y gwahanglwyfus yn ystod oes yr Iesu. Ac yn nes adre, yma yn Nghymru a Lloegr, ers y canol oesoedd, ond yn arbennig ers oes Victoria, yr "Untouchables" oedd y rhai hynny yn ein cymdeithas oedd yn dioddef "Afiechyd meddwl". Cael eu cloi bant yn Bedlam oedd eu hanes, ar wahân a dirmygedig. Ac o ble ddaeth yr enw Bedlam?. Wel, o'r enw Bethlehem, ond doedd dim croeso i fugeiliaid a doethion ac angyllion o fewn muriau'r Bethlehem yma.

Ysbyty Meddwl oedd Bethlehem yn Llundain, ac aeth Bethlehem yn Bedleheem, yn Bedleem, yn Bedlam! Ond doedd e'n fawr o ysbyty, bydde Carchar wedi bod yn well enw. Carchar doedd dim dianc ohono. Ond, diolch i'r drefn, nid felly ma' pethe erbyn heddiw; mae cymdeithas wedi troi cefn ar Bedlam, a bellach gofal a gwellhad yw bwriad ein ysbytai a'n canolfannau iechyd meddwl.

Mae'n "Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl" yr wythnos hon, a'r thema eleni yw CAREDIGRWYDD. Pam? Wel, yn ôl mudiad MIND – am fod caredigrwydd yn gallu datgloi ein cariad dyngarol. Caredigrwydd yw congflaen ein iechyd meddwl. Mae pob diwylliant gwar ar hyd y canrifoedd wedi cydnabod bod angen caredigrwydd ym mywyd pob un person, yn wir, heb ymarfer caredigrwydd – dy'ni ddim yn byw bywyd llawn.

Beth yw'r diffiniad o garedigrwydd? Wel, yr awydd i wneud rhywbeth o werth i eraill; ac i ni'n hunain, er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Yn ôl ymchwil MIND, caredigrwydd yw'r feddyginiaeth orau i leddfu unigrwydd, i leihau gorbryder, i ddyfnhau'n perthynas a'n gilydd ac i greu ymwybyddiaeth o berthyn. Eleni, bydd gofalu am ein hiechyd meddwl yn ganolog i'n gallu ni fel cymdeithas i ddelio gyda dylanwad pandemig Covid-19, yn arbennig y gweithwyr iechyd, gan y bydd effaith seicolegol y feirws yn debygol o bara'n hirach o lawer na'r effaith ar y corff. Gobaith MIND yw y gall caredigrwydd drawsnewid ein gweithleoedd, ein hysgolion, ein teuluoedd a'n cymunedau, a thrwy hynny greu cymdeithas gyfan sy'n ffafrio iechyd meddwl da.

Rydyn ni'n anfon ein cofion at y canlynol:

Margaret Roberts a'r teulu, Pentyrch.
Margaret wedi colli ei brawd, Hywel, yn
Llangennech.

Cofion hefyd at **bawb** o'n haelodau a'u
teuluoedd sydd wedi bod yn anhwylyd yn
ddiweddar.

Dyma nhw... Sêr darllediad Cymorth Cristnogol Bethlehem a drefnwyd gan Heulwen. Maen nhw yma, fwy neu lai yn nhrefn eu hymddangosiad ar y sgrin. Mae cyfle o hyd i chi ymweld â'r oedfa ar YouTube. Cliciwch ar y ddolen hon: https://youtu.be/6c9jD41v_40



Diolch i bawb o'r teuluoedd fu'n rhan o'r darparu ar gyfer hyn – ac yn arbennig i Heulwen am drefnu ac i Wyn am gyfuno'r cyfan. Heb anghofio'r gwr tu ôl i'r llenni yng ngardd Eden.

A chofiwch! Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd ar-lein fel arfer y Dydd Sul nes a eto - (Mai 24) ar yr un amser (10.30). Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r sesiwn.

Y drefn ydy bod Heulwen yn anfon linc yn uniongyrchol i'r teuluoedd. Os oes unrhyw un arall am ymuno, yna mae angen iddyn nhw roi gwybod i Heulwen ar e-bost neu ffôn (*manyllion isod*) ac fe wnaiff hi "hala'r linc" iddyn nhw.

Heulwen Jones heulwen@btinternet.com 07779 360614



COFIO HYN?

Yr achlysur?

Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd 1988.

Dyma Barti Alaw Werin a Cherdd Dant Bethlehem. Pwy ydy Pwy? Dyma'r enwau – heb fod yn eu trefn: Esyllt Davies, Sara Gibson, Lowri, Luned a Bethan Clements, Gwanan Huws, Bethan a Rwth Elis Owen, Rachel a Siân Edwards, Rhian Edwards, Rhian a Lois Jones, Sian Rosser, Bethan ac Angharad Williams.

(Diolch i Rhian Huws am anfon y llun)



Nos Fawrth nesaf, (Mai 26) am 9.00 o'r gloch y nos, bydd S4C yn darlledu'r gêm rygyni hanesyddol honno – Gêm Dathlu Jiwibili yr Urdd. Ond pwysicach fyth, gêm fawr i Barry John. Mae'r manylion cefndirol gennym ni – drwy law sylwebydd y noson, John Evans, Radur. Diolch i S4C a'r BBC am ganiatâd i ni gael cyhoeddi hyn ymlaen llaw!

Y ddau arwr o bentre Cefneithin. Carwyn James a Barry John yn cyfuno. Y ddau wedi profi llwyddiant aruthrol ar faes y gad. Barry wedi disgleirio yn safle'r maswr dros Gymru'n wreiddiol ac yna i garfan Carwyn o'r 'Llewod' a deithiodd ac a goncrodd frodorion Seland Newydd mewn cyfres o bedair gêm.



Sut roedd anrhydeddu'r ddau? Tybed a oedd modd cysylltu'r llwyddiant ar y cae gyda'r llwyddiant a ddigwyddodd oddi ar y cae gan brif fudiad ieuenctid Cymru, sef Urdd Gobaith Cymru, oedd yn dathlu hanner can mlynedd o fodolaeth?

Daeth syniad! A fyddde modd cynnal digwyddiad fyddai'n uno llwyddianne'r ddwy garfan mewn un gêm? Cafwyd sêl bendith Barry a Carwyn mewn dim o dro. Aethpwyd ati i gysylltu a'r awdurdode allweddol ac yn wir derbyniwyd y syniad i gynnal gêm fyddai'n dathlu penblwydd yr Urdd, tra'n rhoi teyrnged i lwyddiannau'r Llewod yn Seland Newydd. Dyna a gytunwyd. Byddai tîm Barry yn cynrychioli Cymru ac yn wynebu tîm Carwyn, sef y 'Llewod' a'r gêm i gael ei chynnal ar faes clwb rygbi Caerdydd sef maes y 'Cardiff Arms'.

Y cam nesaf oedd gwahodd aelodau'r ddwy garfan. Nid oedd modd talu yr un o'r chwaraewyr. Roedd rygbi'n gêm i'r amaturiaid. Sawl chwaraewr o Loegr, Yr Alban a Iwerddon fyddai'n gallu teithio i Gymru yng nghanol wythnos? Yr ateb i'r cwestiwn hwnnw oedd "Pob chwaraewr a dderbyniodd wahoddiad i ymuno yn y dathlu ar y chweched ar hugain o Ebrill 1972."

Pwyllgor bychan iawn fu'n trefnu gêm y dathlu. Dau lond dwrn ar y mwya a hynny gyda'r arwr Dewi Bebb yn gadeirydd. Argraffwyd y tocyne priodol ond, o fewn dyddie'n unig, sylweddolwyd fod y tocyne i gyd wedi cael eu gwerthu. Y mowredd mowr beth nesaf? Yr ateb oedd troi'n sylw unwaith eto at y corff llywodraethol, sef Undeb Rygbi Cymru. Gwyddem fod ein cais yn anarferol ond a fyddai modd cynnal y gêm ar y Maes Cenedlaethol?

Bu holl gynrychiolwyr prif glybie Cymru, ynghyd â swyddogion yr Undeb, yn cynnal cyfarfod arbennig. Profwyd cnoi ewinedd a dweud y lleia! Yna daeth llais W. H. Clement, yr ysgrifennydd: "Permission is granted. The 'Urdd' is such a worthy cause there was not one dissenting voice." "Hwre" fowr! Llosgwyd y tocyne gwreiddiol ac fe ddaeth môr o geisiade i gartref y trysorydd, Bob Roberts. Dywedodd Prif Weithredwr yr Urdd ar y pryd, R. E. Griffith, yn ei gyfrol ar hanes yr Urdd "Cartref Ann a Bob Roberts oedd y swyddfa brysuraf yng Nghaerdydd". Diolchwyd i'r ddau am y croeso a dderbyniasom ar eu haelwyd mewn llu o gyfarfodydd yno.

Tua'r adeg yma gwyddwn fod Barry wedi gwneud ei benderfyniad ynglŷn a'i ddyfodol. Ond er yr holl sibrydion, nid agorais fy nghog! Serch hynny derbyniais y cynnig i sylwebu'n fyw ar deledu BBC Cymru. "Paid ti a becco am ystyrieithe cymhleth y gêm. Ga'd rheiny i Carwyn. Ymdrecha i nodi enwe'r unigolion", medde'r cynhyrhydd. 'Hwre fowr' ddweddes i.

Llwyddwyd i werthu'r syniad i brif adran chwaraeon y BBC yn Llundain ac fe ymddangosodd uchafbwyntie'r gêm ar y rhaglen boblogaidd 'Sportsnight with Coleman'. Cyhoedduswyd pell gyrhaeddol ychwanegol i'r Urdd.

Am achlysur! Mawrion ein cenedl ni - "Tîm Barry" yn erbyn mawrion gwledydd eraill Ynysoedd Prydain, "XV Carwyn".

Noson canol wythnos fwyn yng Nghaerdydd. Y dorf? Pymtheg mil ar hugain! Profwyd perl o achlysur gyda'r selogion yn mwynhau perfformiade diymroddiad gan aelode'r ddau dîm. Disgleiriodd yr 'enwe', y mawrion. Cawsom geisie i'w cofio. Taclwyd yn gadarn ac yn ddiflino.

Gwŷr Carwyn, Y Llewod, ar y bla'n o 28 i 26 gyda thair munud yn weddill. Yna gwelwyd y brenin Barry yn ochr gamu, yn ffugio, yn bylchu ac yn sgorio'r cais a sicrhodd y fuddugoliaeth i'w dîm. Cais olaf Barry. Gêm olaf Barry. Gem o gêm!

Roedd elw'r noson yn £14,500! Nôl ym 1972! Yn ôl R.E. Griffith "Gêm y Jiwibili oedd sgŵp fawr y flwyddyn."

[Ôl-nodyn: Mae enwau'r sêr gyhoeddwyd yn rhaglen y gêm i'w gweld ar waelod y dudalen nesaf.]



Â Sulgwyn ar garreg y drws, dathliad o'r Ysbryd Glân yn disgyn ar yr apostolion yw'r wyl yn y calendr crefyddol. Ond, pan oeddwn yn blentyn, un peth yn unig fyddai'r Sulgwyn yn ei olygu i fi a hynny fyddai'r Pwnc.

Traddodiad o ryw hanner canu a hanner adrodd rhan o'r Beibl yw'r Pwnc. O'r 19g ymlaen y cynhaliwyd yr arferiad mewn eglwysi ac erbyn yr 20g y De Orllewin oedd ei gadarnle. Ond mae rhai yn dweud y gallai fod â gwreiddiau cynharach sy'n atseinio hen ffordd o lefaru y catecism.

Yn yr eglwysi ar y Llungwyn y digwyddai hyn yn fy nghof i ac roedd yn benllanw wythnosau o baratoi yn yr Ysgol Sul. Yn Llandudoch, fy mhentref genedigol, mae'r adeilad lle cynhelir yr Ysgol Sul yn agos i'r felin ac yn dal yn eiddo i'r eglwys. Fan hyn oedd y "*National school*", lle cafodd fy mam ei haddysg yn uniaith Saesneg, ac yno yr oedden ni, yn blant, yn dysgu'r Pwnc.



Byddai pennod o'r Beibl wedi cael ei bennu i ni fel eglwys ac adnodau yn cael eu dosbarthu rhwng y gwahanol ddosbarthiadau. Yn y rŵm bach fydde ni'r plant gyda gwahanol ddosbarthiade i'r bechgyn a'r merched ar wahân a phawb yn ei gwtsh. Byddai'r ysgol Sul gyfan yn siantio'r adnodau cychwynnol cyn symud ymlaen i bob dosbarth yn eu tro o'r plant lleiaf i'r dynion cyn i bawb uno yn yr adnodau cloi. Byddem yn cael ein paratoi a'n holi ar ein hadnodau yn drwyadl gan ein hathro/athrawes.

Tair eglwys yn ein plwyf ni fyddai'n cynnal y Pwnc yn eu tro sef Llandudoch, Cilgerran ac Eglwyswrw gydag Eglwys Wen a Llanfair Nantgwyn yn cymryd rhan hefyd. Bws fyddai'n ein cludo yno ac ar ôl cinio fydden ni'n mynd. Mynd mas i du blaen yr eglwys i ganu'r Pwnc ac yna cael ein holi gan ficer o un o'r eglwysi eraill ar ein maes llafur.

Fel plant, pinacl y diwrnod oedd cael te, gymaint o fwyd fedrech chi fwyta. Yn ychwanegol i hyn roeddem yn cael mynd i'r siop i brynu cisys (losin). Mae fy chwaer yn cofio ei bod wedi prynu hufen iâ ond a hithau'n araf yn ei fwyta canodd cloch yr eglwys i'n galw nôl i gyfarfod yr hwyr. Beth wnaeth hi ond stwffio'r waffer mewn i ryw handbag bach a gariai a hwnnw wedyn yn toddi trwy'r bag ac ar ei dillad newy'. Mae'n siŵr nad oedd fy mam yn hapus iawn gan y byddai wedi treulio oriau yn gwnïo'r dillad iddi. Er ein bod mewn dillad newy' byddai'r cyfnod rhwng y cyfarfod prynhawn a nos yn gyfle gwych i ni gael chwarae gyda phlant dieithr. Ydy mae'r Llungwyn yn f'atgoffa o amser hapus iawn.

Gêm y Dathlu 1972 (parhad)

Y Rhaglen



XV Carwyn James		XV Barry John	
10. R. R. HILLER	Liège/England	Colwyn Bay	10
11. A. G. BISHOP	Fy Athol/Scotland	Colwyn Bay	11
12. E. J. DANER	Cymru/Wales	Colwyn Bay	12
13. J. S. SPENCER	Liège/England	Colwyn Bay	13
14. D. J. DUCKHAM	Liège/England	Colwyn Bay	14
15. P. BENNETT	Cymru/Wales	Colwyn Bay	15
16. R. HOPKINS	Cymru/Wales	Colwyn Bay	16
O'R CANLYNIDFROD:			
J. McLAUCHLAN	Fy Athol/Scotland	Pos	1
J. V. PULLIN	Liège/England	Sarthen/Wales	2
A. B. CARMICHAEL	Fy Athol/Scotland	Pos	3
C. B. STEVENS	Liège/England	Cly/Leek	4
E. L. BROWN	Fy Athol/Scotland	Cly/Leek	5
M. G. ROBERTS	Cymru/Wales	Blaen Agh/Wing Forward	6
F. J. DIXON	Liège/England	Blaen Agh/Wing Forward	7
R. J. ARMEL	Fy Athol/Scotland	Wylwr/Wr. II	8
W. D. MORRIS	Cymru/Wales		
M. L. HIPWELL	Aerobol/Ireland		
		I. F. B. WILLIAMS	17
		T. B. S. DAVIES	18
		R. T. S. MERRIERS	19
		A. J. L. LEBUS	20
		J. C. IRVAN	21
		B. JOHN	22
		G. D. EDWARDS	23
		D. J. LLOYD	24
		J. YOUNG	25
		D. B. LLEWELYN	26
		T. B. EVANS	27
		W. D. THOMAS	28
		D. GUINNEL	29
		J. TAYLOR	30
		T. M. DAVIES	31

“Gardd eden”

Darlleniad: Mathew 3: adnodau 1 – 6


Tybed pwy gafodd y dylanwad mwyaf ar eich bywyd chi? Mae'n siŵr fod gan bawb restr o'r rhai sydd, dros y blynyddoedd, wedi cynnig gair o gyngor doeth ar yr adeg iawn ac efallai wedi newid cyfeiriad bywyd hyd yn oed. Rhiant a phlentyn; athro a disgybl; tiwtor a myfyriwr; mentor a chyd-weithiwr, gweinidog ac aelod o'i eglwys... gall y rhestr fod yn un faith. A beth am y rhai hynny sydd wedi cael dylanwad o bell, heb fod wedi cael cysylltiad uniongyrchol? Awdur, cerddor, athronydd, ffigur hanesyddol, arwr o fyd chwaraeon, gwyddoniaeth neu'r celfyddydau - fe allwn ni ychwanegu myrdd o enwau eraill at y rhestr o'r rhai hynny sydd wedi cael dylanwad ar y ffordd yr ydyn ni'n meddwl, yn ymddwyn, yn byw. Enw sydd wedi ymddangos yn ddiweddar ar fy rhestr bersonol i fyddai "eden ahbez".

Cyn mynd gam ymhellach, (a chyn i Ifan Roberts fynd ati i gywiro'r erthygl gyfan!) gwell i fi egluro sillafiad anarferol enw eden ahbez. Ganed eden yn Efrog Newydd ym 1908 a'i enw bedydd oedd George Alexander Aberle. Yn un o dri-ar-ddeg o blant, o deulu Iddewig tlawd, fe'i mabwysiadwyd gan deulu o Kansas a'i alw yn George McGrew. Fe adawodd ei gartref yn ddyn ifanc i ddilyn ei reddf a chrwydro'r wlad. Dywedir iddo gerdded ar draws yr Unol Daleithiau bedair gwaith yn astudio athroniaeth a diwinyddiaeth ar ei deithiau. Pererin oedd, mewn anial dir. Dewisodd yr enw “eden ahbez” iddo'i hun - ond gan wrthod defnyddio prif lythrennau. Credai'n gryf mai dim ond Duw a Thragwyddoldeb oedd yn haeddu llythyren fawr.

Erbyn y 1930au dyma eden yn cyrraedd ei “ardd Eden” ei hun, Califfornia, ac yno fe ymunodd â chriw o eneidiau hoff cytûn - y “Nature Boys”. Dyma giwed fach o ddynion ifanc, hirwallt oedd yn byw mewn ogofâu yn yr anialwch, yn tyfu a bwyta eu llysiau a'u ffrwythau eu hunain, yn myfyrio, yn ymarfer yoga a chreu cerddoriaeth ar eu gitârs a'u fflwiwtiau. Fel Ioan Fedyddiwr, roedden nhw'n gwisgo dillad o groen anifeiliaid ac yn bwyta mêl am wn i - ond doedd locustiaid ddim ar y fwydlen! Llysieuwyr oedden nhw. “Proto-Hippies” go iawn - a hynny ddeg-mlynedd-ar-hugain cyn i neb arall feddwl am ddilyn y ffordd arbennig honno o fyw.

Cerddor oedd eden ac fe gyfansoddodd gân o'r enw “Nature Boy”. Un noson safodd y tu allan i neuadd gyngerdd yn Los Angeles yn y gobaith o gyflwyno copi papur o'r gân i Nat King Cole. Roedd yntau yn ganwr byd-enwog yn y 1940au a chredai eden y byddai'r gân yn siwtio'i lais.

Yn ôl pob sôn, fe anwybyddodd Nat yr “hippie” hirwallt, blêr y tu allan i'r theatr ond llwyddodd eden i roi'r copi yn llaw un o'r criw. Pan glywodd Nat y gân roedd e wrth ei fodd ac yn awyddus i'w recordio ar unwaith ond roedd yn rhaid cael caniatâd y cyfansoddwr cyn gwneud hynny. Ymhen hir a hwyr daethpwyd o hyd i eden yn byw'n hapus mewn lloches syml yn y bryniau uwchben L.A. - o dan y llythyren “L” yn arwydd enwog HOLLYWOOD! Aeth y gân i frig y siartiau Americanaidd am fisoedd lawer ym 1948 ac, yn ddiweddarach, mae hi wedi ei recordio gan artistiaid mor amrywiol â Frank Sinatra, David Bowie a Lady Gaga! Daeth eden yn ddyn adnabyddus am gyfnod, ac yn ddyn cyfforddus yn ariannol am weddill ei oes, ond daliodd i fyw bywyd syml, yn bwyta dim ond llysiau a ffrwythau, ymarfer yoga, myfyrio a chysgu dan y sêr. Bu'n crwydro yma a thraw tan ei farwolaeth mewn damwain ym 1995.





“There was a boy; a very strange, enchanted boy
They say he wandered very far, very far
Over land and sea.
A little shy, and sad of eye, but very wise was he.

And then one day, a magic day, he passed my way.
And while we spoke of many things, fools and kings,
This he said to me;
“The greatest thing you'll ever learn
Is just to love and be loved in return.”

Doeddwn i ddim yn ffan o Nat King Cole, (ac roedd ei drefniant o’r gân yn swnio ychydig yn siwgrllyd a sentimental i ffan y Red Hot Chilli Peppers fel fi!) ond pan ddes i ar draws stori eden a’r “Nature Boys”, rhyw dair blynedd yn ôl, fe drawodd rhyw dant yn ddwfn yndda i. Dydw i ddim wedi bwyta cig ers hynny a dwi’n gwneud ymdrech i ymarfer yoga bob dydd. Erbyn diwedd y “cloi mawr” yma falle bydd gen i wallt hyd at fotwm fy mol hefyd! A dyna enw eden ahbez yn cael ei ychwanegu at restr y “bobol ddylanwadol”.

Emyn 730: “Tyred, Iesu, i’r anialwch”

Mae William Williams yn ei emyn yn gweld yr anialwch fel lle llwm, llawn rhwydau a mieri - lle i ddianc ohono. Yn bersonol, ar ôl treulio ychydig amser yn anialwch Califfornia, ger Palm Springs lle’r oedd eden a’i griw yn arfer trigo, rydw i wastad wedi teimlo fod yr anialwch yn lle cysurlon, tawel, hardd a heddychlon. Mae’r dwys ddistawrwydd a geir yno yn ddelfrydol i chwilio am ysbrydoliaeth pan fydd prysurdeb y byd yn mynd yn ormod. Er nad ydyn ni’n cael teithio’n bell y dyddiau hyn, falle ei bod hi’n bwysig i ni dreulio ychydig amser yn dianc i’n “hanialwch” personol - yn crwydro llwybrau tawel y meddwl i weld pa ryfeddodau ddaw i’n rhan. Ac os nad ydych chi’n rhy gyfforddus mewn distawrwydd llethol ga’ i’ch gwahodd i droi at wefan “YouTube”, teipio “Nat King Cole, Nature Boy”, a gadael i’r gerddoriaeth eich cludo at eden ahbez yn anialwch Califfornia - am dri munud o leiaf! Ddewn ni byth i wybod pwy yn union oedd y crwydryn “strange” ac “enchanted” fu’n gymaint o ddylanwad ar fywyd eden ahbez. O ddarllen ei hanes mae’n ddigon posib ei fod yn cyfeirio, i ryw raddau, at Iesu Grist ei hun. A thybed faint ohonon ni sy’n cofio rhoi yr enw yna ar frig ein rhestr o bobol y dylem fyw yn ôl ei ddylanwad?

Gweddi, gan Angela Ashwin.

Grist ein Harglwydd,
aros gyda ni ar ein pererindod drwy fywyd:
pan betruswn, cynorthwya ni,
pan faglwn, dal ni,
a phan syrthiwn, cod ni i fyny.
Helpa ni i ddod, gam wrth gam, i’n hail feddiannu ni ein hunain, ac atgoffa ni dy fod
wedi teithio’r ffordd hon o’n blaenau ni.

Amen.

Mae fy mherthynas i â'm gwallt wedi bod yn un cymhleth erioed. Dros y blynyddoedd wynebais sawl her a sawl trychineb ym maes trin gwallt ond dim byd i gymharu â phroblemau "gwallt lockdown". Feddyliais i 'rioed y byddwn yn teimlo eiddigeidd, cenfigen a hyd yn oed gasineb tuag at fy ffrindiau moel - dynion yn bennaf.

Fel mae'r wythnosau'n mynd heibio mae problemau fy ngwallt - yn debyg i'r gwallt ei hun - yn tyfu. Falle mai gwraidd y broblem yw fod fy ngwallt yn unigryw. Nid yw yn dilyn deddf disgrychiant: yn hytrach na thyfu ar i lawr mae'n mynnu tyfu tuag allan. O'r herwydd dwi'n ymdebygu'n ddyddiol i "fop"!

A bod yn gwbl onest dyw hwn ddim yn brofiad cwbl ddieithr i mi ac mae ngwallt yn aml wedi edrych yn rhyfeddol o debyg i "fop" h.y. llond gwlad o gyrls afreolus, gwyllt, yn tyfu i bob cyfeiriad. Tra bod pob copa gwalltlog arall o blant y chwe-degau efo gwallt hir, syth bin a symetrig á la Mary Quant dyna lle oeddwn i fel rhyw "throwback" o gyfnod y Pre Raphaelites gyda thonnau cyrliog blêr yn disgyn ble y mynnent ac yn gwrthod cydymffurfio â ffasiwn y dydd. Ro'n i'n ceisio dofi'r tonnau trwy'u smwddio neu'u gludo lawr 'da tap selo ond heb fawr o lwyddiant. Wrth gwrs roedd y frwydr yma yn digwydd cyn dyddiau y dhd's a drawsnewidiodd fy mherthynas â'm gwallt - tan y dyddiau du yma.

Bellach yn wythnos 8 'lockdown' nid yw hyd yn oed y dhd's yn medru rhoi trefn ar y "mop". F'unig gysur wrth syllu ar f'adlewyrchiad yn y drych a gweld fy ngwallt yn ei holl ogoniant gwyllt (sydd gyda llaw yn andros o debyg rwan i wallt Camila, Duges Cernyw) yw, er fod pob siâp a steil wedi diflannu, erys y lliw gwreiddiol - hyd yma o leia'. Dim ond gobeithio na fyddaf wedi troi at y botel cyn diwedd 'lockdown'.

Dwi'n siŵr fod sawl un ohonoch chi, ledis Bethlehem, hefyd yn wynebu her ddyddiol y gwallt ac yn dyheu am i Lazarou neu Blush neu Toni & Guy agor eu drysau unwaith yn rhagor a chyflawni y gwyrthiau a gymerwyd yn ganiataol prin ddau fis nôl. Ysgwn i beth fydd eich ateb chi i pan ofynnir y cwestiwn bondigrybwyll "Pwy chi am weld gyntaf ar ôl lockdown?". Fy ateb i heb os nac oni bai fydd "Terry Salon Tlws".

Yn y dyddiau brawychus hyn falle mai trwy ffocysu ar y problemau bychain y gallwn wynebu'r problemau mawr.



Megan Bonner
(1911 - 1945)

Tra roedd pobl ar hyd a lled Prydain yn dathlu Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (VE Day) ar ddydd Gwener, Mai'r 8fed, roeddwn i'n cofio am aelod o'r teulu fu farw ar y diwrnod hwnnw, 75 mlynedd yn ôl.

Megan Bonner oedd ei henw hi ac roedd hi'n chwaer i fy niweddar dad, Dewi Bonner.

Yn 1945, roedd Megan yn 34 mlwydd oed ac yn byw yng Ngilfach Goch gyda'i thad. Roedd hi'n brifathrawes ar Ysgol Glynogwr, pentre' bach tua 10 milltir o'i chartref.

Teithiodd i Lundain gyda ffrind er mwyn bod yn rhan o ddathliadau Mai'r 8fed. Roedd cannoedd o bobl allan ar lannau'r Tafwys y noson honno, lle roedd hi a'i ffrind yn gwyllo'r dathliadau oedd yn cynnwys tân gwyllt.

Yn sydyn, cwmpodd Megan i'r llawr ar ôl iddi gael ei tharo gan roced yn ei hwyneb. Aethpwyd â hi i Ysbyty Charing Cross ond bu farw yn fuan ar ôl cyrraedd yno.

Roedd brawd Megan, sef fy nhad, Dewi, ar ei wyliau yn Torquay ar y diwrnod hwnnw a golygodd hyn nad oedd unrhyw un yn gallu cysylltu gyda fe. Yn anffodus, darllenodd fy nhad am y ddamwain mewn papur newydd sawl diwrnod yn ddiweddarach.

Er y bu achos llys yn erbyn cwmni Brock, a oedd yn gyfrifol am drefnu'r tân gwyllt y noson honno, y dyfarniad oedd marwolaeth drwy ddamwain. Doedd neb yn gallu profi bod y roced a darodd Megan yn perthyn i'r cwmni Brock.

ODLAU'R GARTH 1

Ar drothwy Eisteddfod T yr Urdd – rhaid, rhaid oedd cynnwys y gerdd isod, sy'n un o ddarnau gosod yr Eisteddfod fydd yn cael ei chynnal drwy S4C a Radio Cymru. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i Tudur Dylan am ganiatáu i ni ei chynnwys – fe piau'r hawlfraint - a diolch i'r Urdd am eu cydweithrediad. Mae hon yn berl amserol!

Enfys yn y Ffenest

Mae enfys yn y ffenest,
pob ffenest yn y stryd
ag enfys fach i ddiolch
i'r gweithwyr gorau i gyd.

Mae enfys yn y ffenest
a'r ffenest eto draw
ac enfys arall wedyn
yn obaith wedi'r glaw.

Llund gwlad o guro dwylo
a chanu'r anthem fach
llond gwlad o aros adref
i gadw pawb yn iach.

Ac er bod sgwrsio'n gysur
gydag eraill dros y we,
mae hiraeth yn fy nghalon
am weld ffrindiau hyd y lle.

A phan gaf unwaith eto
fynd allan i gwrdd â'r criw,
bydd enfys dros y cyfan
a bydd y byd mewn lliw.

Tudur Dylan Jones

ODLAU'R GARTH 2


CERDD O ROTORUA - Rhagymadrodd: *o gofio am gyfraniad ysgubol Glenys ac Anthony (a Genesis) i Stori'r Creu yn yr oedfa ar-lein fore Sul diwethaf]*

Ranginui a Papatūānuku yw'r rhieni cyntafol yn stori'r Maori yn Seland Newydd.

Ranginui yw'r tad nefol a Papatūānuku yw'r fam-ddaear, ac mae'r ddau ynghlwm mewn coflaid. Mae ganddynt nifer o blant, ond mae rheini'n gorfod byw yn y tywyllwch sydd rhwng y rhieni. Ond eu dyhead, fel y tyfant, yw cael byw yn y goleuni.

Maen nhw'n cytuno, wedi hir drafod, i wahanu eu rhieni, gan eu gwthio ar wahân, a neilltuo'r tad fel dieithryn yn yr awyr, tra bod y fam ar gael i'w meithrin a'u bwydo.

Un o'r brodyr, Tane, Duw'r goedwig, sy'n llwyddo gyda'r dasg o'u gwahanu, gan orwedd ar ei gefn ar lawr a'u gwthio a'i goesau nes eu bod ar wahân, gan ddefnyddio'r coed Kauri anferth (*ar y dde*) wedyn i'w cadw felly. (ac mae eglurhad o'r geiriau diarth ar waelod y gerdd.



I Papatūānuku – Y Fam Ddaear

(Aralleiriad o "For Papatūānuku – Mother Earth" - gan Nadine Anne Hura ac a rannwyd â'r byd yn ddiweddar, gan Jacinda Ardern, Prif Weinidog Seland Newydd)



Gorffwys 'nawr e Papatūānuku,*
Anadla'n rhwydd a setla
Reit fan hyn lle'r wyt ti
Fyddwn ni ddim yn dy droedio
Am sbelan

Fe stopiwn, fe beidiwn
Fe arafwn ac fe arhoswn gartref

Fe glosiwn at ein gilydd a byddwn yn garedig
Yn fwy caredig nag y buom erioed
O na allem ddweud mai er dy fwyn di y gwnawn hyn
Yn gymaint ag i ni'n hunain

Ond *hei aha***

Ond yr ydym yn ei wneud eisoes

Mae'n taro'n iawn. Mae'n amser.

Amser i ddychwelyd

Amser i gofio

Amser i wrando ac i faddau

Amser i roi heibio beirniadaeth

Amser i wylo

Amser i feddwl

Am eraill

Tynnwn ein 'sgidiau

A chyffwrdd ein dwylo yn y pridd

Didolwn y tywodyn rhwng ein bysedd

Cledrau esmwyth

Mae'n amser i blannu

Amser i aros

Amser i sylweddoli

I bwy yr ydym yn perthyn

Am y tro, dim ond y ti
A'r gwynt
A'r coedwigoedd a'r cefnforoedd a'r awyr llawn glaw

O'r diwedd, mae'n glawio!

*Ka turuturu te wai kamo o Rangi ki runga i a koe****

Cofleidia hyn.

Mae'n haberth o feudwyo wedi ei naddu er dy fwyn

*He iti noaiho ***** – yr offrwm bychan
Ni chredai neb y byddai'n bosibl
Daearu'r awyrennau, ac aros adref a rhoi'r gorau i'n harferion ymborthi

Ond yr oedd
'Roedd wastad felly

Ond yr oeddem ofn faint y byddai'n ein brifo
- ac y MAE'N brifo ac fe fydd yn brifo ac fe barha i frifo
Ond nid cymaint ag yr wyt ti wedi dy frifo.

Felly llonydda 'nawr
Lapia'r brynau o gwmpas ein habsenoldeb
Llacia'r gwregys concrit sy'n cydiad yn dyn am dy ganol

Gorffwys
Anadla
Adnewyddda
Adfer

Ac fe wnawn ninnau'r un modd.

Rhodri-Gwynn Jones

Ymadroddion yn iaith y Maori yn y gerdd:

**e Papatūānuku – “Y Fam Ddaear (a gwraig Ranganui)”*

***hei aha – “dim gwahaniaeth”*

****Ka turuturu te wai kamo o Rangi ki runga i a koe - “Mae dagrau o lygaid Ranganui yn syrthio arnat”*
[Ranganui yw'r tad-awyr, ac mae'n arferol i gysoni glaw fel dagrau Rangi am ei gymar, oddiwrth yr hon
y'i gwahanwyd ar ddechrau amser.]

*****He iti noaiho – “rhywbeth bychan “*

Awydd anfon cyfraniad i'r rhifyn nesaf o "Gair bach Bethlehem"?

Ydych chi wedi darganfod hen lun, hen lyfr neu drysor?

Ewch ati nawr – ac anfon gair erbyn Mai 28 at: tycnau@aol.com

Rydyn ni wedi derbyn cymaint o amrywiaeth dros 9 rhifyn. Yn braf iawn, daeth cymaint i law yr wythnos hon, bu'n rhaid cadw rhai erthyglau tan yr wythnos nesaf.

Diolch i bawb.